***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

# MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL SY'N YMWNEUD Â RHAN 2

## *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4)*

5 (1) Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 2—

(a) yn is-adran (2), yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru";

(b) yn is-adrannau (5) a (6), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Senedd Cymru" ac yn is-adran (7), yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Senedd Cymru".

(3) Yn y darpariaethau a grybwyllir yn is-baragraff (4)—

(a) hepgorer "Cynulliad";

(b) yn lle "is-offeryn Cymreig" rhodder "offeryn".

(4) Y darpariaethau yw—

(a) adran 13(3);

(b) adran 16(2)(a), (3)(a) a (5);

(c) adran 25(1)(b);

(d) adran 26(1)(b).

(5) Yn adran 40—

(a) ym mhennawd yr adran ac is-adran (1), yn lle "Cynulliad", ym mhob lle y mae'n ymddangos, rhodder "Senedd";

(b) yn is-adran (2)—

(i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "Cynulliad" rhodder "Senedd";

(ii) ym mharagraff (a), yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru";

(iii) ym mharagraff (b), yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Senedd Cymru";

(iv) ym mharagraffau (c), (d) ac (e), yn lle "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" a "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru";

(c) yn is-adran (3)(b), yn lle "Cynulliad" rhodder "Senedd".

(6) Yn adran 43(2) a (3), yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru".

(7) Yn y Tabl yn Atodlen 1—

(a) hepgorer y cofnodion ar gyfer—

| |
|---|
| "Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (*National Assembly for Wales Commission*)"; |

| |
|---|
| "Cynulliad Cenedlaethol Cymru (*National Assembly for Wales*)"; |

"Deddf Cynulliad (*Assembly Act*)".

(b) mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor—

| | |
|---|---|
| "Aelod o'r Senedd (*Member of the Senedd*) | mae "Aelod o'r Senedd" i'w ddehongli yn unol ag adran 1(2A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)"; |
| "Comisiwn y Senedd (*Senedd Commission*) | ystyr "Comisiwn y Senedd" yw'r Comisiwn a sefydlwyd gan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (ac a enwyd yn wreiddiol yn Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru)"; |
| "Deddf gan Senedd Cymru (*Act of Senedd Cymru*) | ystyr "Deddf gan Senedd Cymru" yw Deddf a ddeddfir o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (pa un ai fel Deddf gan Senedd Cymru neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru)"; |
| "Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig (*Act of the Parliament of the United Kingdom*) | mae "Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig" yn cynnwys Deddf gan Senedd Prydain Fawr neu gan Senedd Lloegr"; |
| "Senedd Cymru (*Senedd Cymru*) | ystyr "Senedd Cymru" yw'r senedd ar gyfer Cymru a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (ac a enwyd yn wreiddiol yn Gynulliad Cenedlaethol Cymru)". |

(8) Yn lle "Deddf Cynulliad" a "Ddeddf Cynulliad", ym mhob lle y maent yn ymddangos ar ôl i'r diwygiadau yn is-baragraffau (3) a (7) gael eu gwneud, rhodder "Deddf gan Senedd Cymru" neu "Ddeddf gan Senedd Cymru" yn ôl y digwydd, ac yn adran 37(2)(a), yn lle "Deddf dros dro gan y Cynulliad" rhodder "Deddf dros dro gan Senedd Cymru".

(9) Yn lle "Deddfau'r Cynulliad" a "Ddeddfau'r Cynulliad", ym mhob lle y maent yn ymddangos, rhodder "Deddfau Senedd Cymru" neu "Ddeddfau Senedd Cymru" yn ôl y digwydd.